

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig Kensington Court, Casnewydd

Dyddiad yr arolygiad: 6 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83715-582-8

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	10
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	24
4.	Y camau nesaf .....	26
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	27
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith .....	29
	Atodiad C - Cynllun gwella .....	31

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Kensington Court ar 6 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn lân, yn groesawgar ac yn addas i blant, ac roedd y staff yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ofal cleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' gan ganmol y profiad cyffredinol.

Roedd gwybodaeth am iechyd a llesiant yn cael ei harddangos yn y prif glinig ond prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn Eveswell Suite. Roedd amgylchedd y clinig yn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Gwelwyd y staff yn trin y cleifion gyda charedigrwydd a pharch.

Roedd y cleifion yn cael cyfarwyddiadau clir ar ôl triniaeth a gwybodaeth am y gost. Roedd y cleifion yn cael eu hysbysu am yr amseroedd aros. Roedd triniaethau yn cael eu cynnal mewn lleoliadau priodol, ac roedd gwybodaeth ôl-ofal ddigonol yn cael ei darparu.

Roedd y clinig yn hygyrch i gleifion â phroblemau symudedd gan fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer pob claf. Roedd y staff yn parchu dewisiadau a rhagenwau'r cleifion.

Roedd dulliau adborth ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen rhagor o wybodaeth am hybu iechyd yn yr Eveswell Suite
- Arddangos rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol aelodau perthnasol o staff yn y clinig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Glân, croesawgar ac yn addas i blant
- Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' gan ganmol y profiad cyffredinol
- Roedd triniaethau yn cael eu cynnal mewn lleoliadau priodol, ac roedd gwybodaeth ôl-ofal ddigonol yn cael ei darparu.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn darparu gofal diogel ac effeithiol, gyda staff a oedd yn falch o'u gwaith ac yn hyblyg wrth ymarfer. Roedd yr amgylchedd yn addas er mwyn gofalu

am gleifion ac roedd gan y clinig systemau cadarn ar gyfer rheoli risgiau a sicrhau diogelwch y cleifion.

Roedd y clinig yn gynnes ac yn groesawgar, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn sicrhau preifatrwydd y cleifion. Roedd y cyfleusterau i'r staff yn eithriadol.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd polisiâu perthnasol ar waith.

Roedd trefniadau addas ar waith i Atal a Rheoli Heintiau. Roedd y clinig yn dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ac roedd rhaglen archwilio atal a rheoli heintiau barhaus ar waith. Roedd y gweithdrefnau hylendid dwylo yn addas ac roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Roedd dwy ystafell ddihalogi ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig yn y clinig.

Roedd arwyddion yn annog pobl i beidio â bwyta nac yfed yn y clinig er mwyn sicrhau nad oedd y cleifion a oedd yn ymrydio yn gweld pobl eraill yn bwyta.

Roedd polisiâu ar gyfer ymdrin â meddyginiaethau ar waith ac roedd cyfarpar adfywio brys ar gael. Roedd problemau o ran meddyginiaethau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio oherwydd anawsterau o ran y cyflenwad. Cafodd y clinig ei gynghori y dylid storio hydoddiannau anesthetig lleol ar wahân i'r hydoddiannau trwytho mewnwythiennol, er mwyn lleihau'r risg o roi cyffuriau o'r fath yn fewnwythiennol mewn camgymeriad.

Roedd polisiâu diogelu cynhwysfawr ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant diogelu oedolion a phlant.

Roedd trefniadau diogel ar waith yn y clinig ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X, ac roedd y cyfarpar hwn yn cael ei gynnal a'i gadw a'i brofi'n rheolaidd. Cafodd y staff eu cynghori i roi gwybodaeth i'r cleifion am fanteision a risgiau pelydrau-X.

Roedd cofnodion meddygol y cleifion yn glir, yn gywir ac yn drefnus. Roedd cydsyniad ac asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu dogfennu. Cafodd y clinig ei gynghori i gofnodi dewis iaith y cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cofnodi gwybodaeth ychwanegol ar gofnodion meddygol y cleifion, gan gynnwys eu dewis iaith
- Asesu risg y broses o storio meddyginiaeth y mae'r dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio
- Sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar algorithmau anodd y llwybr anadlu a'u bod yn ymwybodol ohonynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Roedd y clinig a'r cyfarpar mewn cyflwr da
- Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Roedd cofnodion meddygol y cleifion yn glir, yn gywir ac yn drefnus.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd y clinig yn strwythuredig, gyda hierarchaeth sefydliadol glir ar waith. Roedd y llinellau adrodd ac atebolrwydd yn amlwg, ac roedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn bresennol yn rheolaidd i gefnogi'r staff a monitro ansawdd y gwasanaeth.

Nododd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i gasglu adborth ac i fynd i'r afael â materion. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniadau perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y Datganiad o Ddiben yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ac ar gael yn hwylus. Fodd bynnag, nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion, ac roedd angen mynd i'r afael â hyn i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Roedd y trefniadau llywodraethu yn drefnus ac roedd polisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith. Roedd hysbysiadau diogelwch yn cyrraedd dros e-bost, yn cael eu hadolygu gan y rheolwr cofrestredig a'u dosbarthu i'r staff perthnasol mewn cyfarfodydd ac ar hysbysfyrddau.

Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu drwy sgrymiau dyddiol a chyfarfodydd staff bob deufis, ac ar hysbysfyrddau a memos. Roedd gweithdrefn gwyno glir yn y clinig a oedd yn cael ei harddangos yn amlwg ac yn cynnwys manylion pwyntiau cyswllt ac amseroedd ymateb. Roedd yr uwch-dîm rheoli yn ymwybodol o'r gofynion adrodd ar risgiau a digwyddiadau o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Roedd arferion y gweithlu yn sicrhau bod lefelau staffio, cymysgedd sgiliau a hyfforddiant priodol ar waith, ac roedd tystiolaeth bod arfarniadau, cyfarfodydd a gwiriadau cyn cyflogi rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd hyfforddiant a chyfleoedd datblygu parhaus yn cael eu darparu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y canllaw i gleifion er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.



Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Presenoldeb rheolaidd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol
- Lefelau staffio a chymysgedd sgiliau da
- Rhannu gwybodaeth â'r staff.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yng Nghlinig Kensington Court ar gyfer yr arolygiad ym mis Ionawr 2025. Cafwyd cyfanswm o 10 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un o'r 10 claf fod y gwasanaeth yn 'dda iawn', a'r unig sylw a roddwyd oedd:

*“Roedd popeth yn berffaith o'r broses trefnu apwyntiad i'r adeg y cefais fy ngweld.”*

#### Diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gallai'r cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant yn yr ystafell i berthnasau o fewn y prif glinig. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys rhoi'r gorau i smygu, atal heintiau, iechyd y geg a phwysigrwydd hydradu. Prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn ardal aros Eveswell Suite, sef y ddeintyddfa breifat.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn Eveswell Suite am y ffordd y gall cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant.**

#### Urddas a pharch

Nid oedd unrhyw gleifion yn y clinig ar ddiwrnod ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu cyfarch wrth iddynt gyrraedd y clinig a bod y staff yn cael eu cyflwyno iddynt yn anffurfiol. Roedd cleifion yn Eveswell Suite, a gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion hyn mewn ffordd gwrtais ac yn eu trin â charedigrwydd drwy gydol ein harolygiad.

Roedd amgylchedd y clinig yn hyrwyddo urddas a phreifatrwydd y cleifion. Roedd drws ar bob ystafell drin ac ymgynghori a fyddai'n cael ei gau pan fyddai'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio. Roedd ardaloedd y dderbynfa a'r ystafelloedd aros yn fawr a phe bai angen, byddai'r cleifion yn cael eu harwain i ystafell ymgynghori sbâr i gynnal unrhyw sgysiau cyfrinachol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig. Roeddent hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrandao arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud gan y GIG yn gyffredinol ar gyfer gwasanaethau clinig. Roedd pecynnau cofrestru a oedd yn cynnwys yr holl wasanaethau yn cael eu rhoi i'r cleifion yn ogystal â phecyn ar ôl triniaeth gyda'r wybodaeth berthnasol.

Er nad oedd dolen sain yn y clinig, roedd gofynion pob claf yn cael eu bodloni. Roedd llinell gyfieithu ar gael yr oedd yn rhaid ei threfnu cyn y driniaeth.

Byddai gweithdrefnau'r anesthetig cyffredinol yn cael eu hesbonio i'r plant a oedd yn mynychu'r clinig mewn ffordd roeddent yn ei deall gan nyrs bediatrig, a oedd hefyd yn siarad Cymraeg. Roedd y nyrs hefyd yn gwisgo bathodyn 'laith Gwaith' i ddangos ei bod yn siarad Cymraeg. Roedd y nyrs bediatrig hefyd yn ffonio rhieni pob plentyn a oedd yn aros am lawdriniaeth i wneud yn siŵr eu bod yn barod amdani ac er mwyn sicrhau bod yr asesiad cyn llawdriniaeth wedi'i gwblhau. Gwnaethom nodi bod taflen o ansawdd da ar gael a oedd yn annog rhieni i baratoi eu plant ymlaen llaw.

Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth, yn unol â'r canllawiau arferion gorau a Deddf Galluedd Meddyliol 2005, wedi'i gofnodi ar y ffurflen hanes meddygol. Roedd angen i unrhyw un ag anawsterau dysgu fod ag atwrneiaeth. Er bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn y clinig am y staff a oedd yn gweithio yno a bod rhestr o'r deintyddion a'r hylenwyr ar y wal ar y ffordd i Eveswell Suite, nid oeddent yn cynnwys eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos ochr yn ochr ag enwau'r deintyddion a'r hylenwyr yn y lleoliad.**

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ar ôl eu triniaeth a chanllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu mewn argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd fod cost y driniaeth wedi'i hegluro iddynt cyn iddynt ddechrau eu triniaeth.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw amseroedd aros ac unrhyw resymau dros oedi cyn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Roedd cleifion deintyddol preifat yn cael eu gweld yn Eveswell Suite tra bod cleifion preifat yr oedd angen anesthesia cyffredinol arnynt, yn ogystal â chleifion a atgyfeiriwyd fel rhan o gontract anesthesia cyffredinol y GIG, yn cael eu gweld yn y clinig. Roedd mân lawdriniaethau'r geg lle roedd angen anesthesia cyffredinol yn cael eu cynnal yn bennaf yn y theatr llawdriniaethau yn y clinig, yn ogystal â thriniaethau deintyddol gadwrol o dan anesthesia gyffredinol fel mewnbaniadau. Roedd pob triniaeth ddeintyddol arferol yn cael ei chynnal yn Eveswell Suite o dan anesthesia lleol.

Dywedodd saith o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael triniaeth. Dywedasant eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn a'u bod yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd y clinig yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd drysau llydan a thoiled hygyrch. Roedd lleoedd parcio cyfleus ar gael i'r cleifion ag anawsterau symudedd hefyd. Roedd addasiadau rhesymol ar waith fel y gallai pawb gael gafael ar wasanaethau a'u defnyddio ar sail gyfartal. Roedd rhaid i'r cleifion gerdded i fyny grisiau er mwyn cyrraedd y clinig deintyddol. Fodd bynnag, byddai'r cleifion na allant ddefnyddio'r grisiau yn cael eu gweld yn yr ystafell llawdriniaethau'r geg ar y llawr gwaelod.

Yn ystod ein trafodaethau â'r uwch aelodau o staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau unigol. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn cyfeirio at y cleifion gan ddefnyddio'r rhagenwau a ffefrir ganddynt. Byddai'r meddalwedd rheoli cleifion yn dangos enw a ffefrir neu enw hysbys y claf.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r clinig a'u bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchoddedig ai peidio.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd ffurflenni adborth a ffeiliau sylwadau gan gleifion ar gael yn yr ystafell i berthnasau yn y clinig. Roedd codau QR wedi'u cynnwys ar holiaduron er mwyn i'r cleifion gael gafael arnynt yn hawdd. Roedd aelodau penodol o staff yn rheoli'r adborth gan grwpiau cleifion gwahanol, er enghraifft roedd y nyrs bediatrig yn ymdrin ag ymatebion y plant i'r adborth. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y broses o roi adborth a gwneud cwynion yn y clinig ac yn Eveswell Suite.

Rhoddwyd manylion sefydliadau fel y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Chomisiynydd Plant Cymru er mwyn i'r cleifion gael cymorth eiriolaeth wrth wneud cŵyn.

Dywedwyd wrthym mai dim ond un gŵyn a wnaed yn 2024, a bod y clinig wedi ei rheoli a'i chau yn briodol. Nid oedd pryderon anffurfiol na phryderon a wnaed ar lafar yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ynglŷn â chwynion yn cael ei rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd anffurfiol dyddiol.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod cwynion anffurfiol a chwynion a wnaed ar lafar yn cael eu cofnodi er mwyn nodi unrhyw themâu.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yr Amgylchedd

Roedd amgylchedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda heb unrhyw beryglon amlwg, ac roedd yn gynnes ac yn groesawgar. Roedd yr ystafell aros wedi'i haddurno i safon uchel ac roedd y cynllun wedi'i ystyried yn ofalus. Roedd glendid yr ardaloedd clinigol yn briodol ar gyfer cynnal triniaethau llawfeddygol

Roedd y clinig yn hygyrch ac yn hawdd ei ganfod. Roedd yr amgylchedd yn addas at y diben, yn ddiogel ac yn amddiffyn preifatrwydd y cleifion. Roedd cyfleusterau'r staff hefyd yn eithriadol gydag ystafelloedd staff mawr, cegin ac ystafell newid a oedd yn cynnwys loceri ac ardal newid ddynodedig.

Roedd gweithgareddau lliwio, llyfrau a theganau ar gael i blant ym mhob ardal aros. Roedd toiledau'r cleifion yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd pob ardal yn fawr gyda chynllun unffordd drwy'r uned er mwyn atal y cleifion a oedd yn aros am driniaeth rhag gweld y rhai a oedd yn gadael. Roedd yn amlwg bod y clinig yn canolbwyntio ar blant a bod y staff yn mwynhau eu gwaith, gan ddangos agwedd gadarnhaol tuag at yr arolygiad a thriniaeth cleifion.

Roedd y clinig wedi'i leoli ar sawl lefel. Roedd dwy ystafell drin a theatr gydag ardal adfer yn ardal mân lawdriniaethau'r geg a'r theatr ar y llawr gwaelod. Llawfeddyg y geg oedd yn defnyddio'r ail ystafell drin yn bennaf. Ers COVID-19, mae'r anesthetiddion wedi bod yn cynnal y broses dawelyddu yn ardal yr ystafell lawdriniaeth. Roedd modd cyrraedd y deintyddfeydd a oedd ar y llawr cyntaf o ochr yr adeilad.

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig gynllun parhad busnes ar waith, a dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn deall y cynllun ac yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Ystyriwyd y peryglon ac roedd pecyn gollyngiadau ar gael yn yr ardal adfer, yn ogystal â goleuadau brys a larwm brys, a seirenau yn yr ystafell aros a'r theatr. Roedd y system ocsigen yn cael ei datgysylltu ar ddiwedd y dydd er mwyn lleihau'r risg o dân. Roedd y system awyru a oedd wedi'i gosod yn y theatr yn creu mwy na'r isafswm gofynnol o newidiadau aer. Roedd yn bosibl gwaredu nwyon ar y peiriant anesthetig i sicrhau bod nwyon anesthetig a gaiff eu hawyru yn cael eu casglu a'u gwaredu.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Roedd eitemau untro ac eitemau tafldwy yn cael eu defnyddio lle y cynghorir hynny.

Roedd polisiâu perthnasol ar waith, fel polisi iechyd a diogelwch a pholisi cynnal a chadw adeilad, er mwyn sicrhau bod y safle yn cael ei gadw'n ddiogel ac mewn cyflwr da. Nid oedd unrhyw un o'r deintyddion yn y ddeintyddfa yn cynnal y broses tawelyddu deintyddol. Nid oedd yr ysbyty wedi tanysgrifio i'r cynllun gwirfoddol Achredu Gwasanaethau Anesthesia Clinigol (ACSA), lle mae adrannau anesthesia yn ymgymryd â phroses gwella ansawdd drwy adolygu cymheiriaid.

Nododd chwe chlaf bod yr adeilad yn hygyrch, gyda dau ymatebydd yn nodi bod y clinig yn rhannol hygyrch ac nid oedd dau ymatebydd yn siŵr.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd trefniadau addas ar waith i ddioli a storio'r gwastraff clinigol a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y clinig cyn ei gasglu. Roedd contract ar waith i waredu gwastraff o'r clinig yn ddiogel.

Roedd y clinig yn monitro risgiau o haint a'r gweithdrefnau a'r polisi rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 bob chwe mis. Byddai cleifion heintus yr oedd angen mân lawdriniaethau y geg arnynt yn cael eu trin ar ddiwedd y dydd. O'r sampl o gofnodion hyfforddiant y staff a welsom, roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Roedd y cofnodion a'r amserlenni glanhau yn rhestru'r hyn roedd angen ei lanhau a phryd y dylid gwneud hynny. Roedd polisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau perthnasol ar waith a oedd yn cynnwys polisi ar ddihalogi dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn ogystal â pholisi ar reoli dŵr.

Roedd rhaglen archwilio barhaus ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau atal a rheoli heintiau yn ogystal â threfniadau ar gyfer cyflwyno'r canlyniadau.

Roedd y gweithdrefnau hylendid dwylo yn briodol ac yn effeithiol, gan gynnwys cyfleusterau fel sinc hylendid dwylo dynodedig, roedd posteri i'w gweld ac roedd y peiriannau dosbarthu sebon yn cael eu llenwi. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei ddefnyddio, ei fod yn hawdd i'r staff gael gafael arno a'u bod yn ei newid yn briodol. Roedd y clinig wedi aildechrau gofyn i'r cleifion wisgo masgiau pan roeddent yn y clinig. Roedd y staff hefyd wedi aildechrau gwisgo masg yn y clinig. Roedd yr amgylchedd yn galluogi ar gyfer rheoli heintiau yn effeithiol. Roedd dwy ystafell ddihalogi ddynodedig, un yn y clinig ar y llawr gwaelod ac un yn Eveswell Suite. Roedd y clinig cyfan mewn cyflwr da a oedd yn golygu y gellid ei lanhau'n effeithiol a'i fod yn drefnus. Roedd siart lif cyfarpar budr a glân clir ar waith yn yr ystafelloedd dihalogi ac roedd y clinig yn ystyried pryderon amgylcheddol lle y bo'n bosibl, fel lleihau gwastraff plastig. Un o'r nyrsys deintyddol oedd yr arweinydd rheoli heintiau dynodedig.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r protocol anafiadau offer miniog, a oedd wedi'i arddangos yn yr ardaloedd clinigol. Roedd y clinig yn sicrhau bod cyfarpar a rennir a dyfeisiau meddygol aml dro yn cael eu storio a'u diheintio'n briodol. Defnyddiwyd cofnodlyfrau gofyn a gwirio ar gyfer gwirio'r awtoclaf a'r baddon uwchsain. Roedd profion cyfnodol yn cael eu cynnal ar yr awtoclaf, y peiriant uwchsain a'r peiriant golchi-diheintio yn unol â chanllawiau WHTM 01-05. Roedd y cofnodlyfrau a welsom yn cynnwys dogfennau priodol, gan gynnwys tystiolaeth ffotograffig a thafleuni wedi'u hargraffu, yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig. Roedd rhaglenni cynnal a chadw dyddiol a rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer pob deintyddfa. Roedd baddon uwchsain yn y clinig, ac er nad oedd dull cloi ar waith, roedd arwydd yn cynghori'r staff i beidio ag agor y drws pan fyddai'n cael ei ddefnyddio. Roedd chwyddwydr â golau ar gael i'w ddefnyddio yn ystod y broses sterileiddio.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer cludo offer rhwng deintyddfeydd ac ardaloedd dihalogi drwy ddefnyddio blychau wedi'u cloi. Cynghorwyd y clinig i ddefnyddio menig wrth gludo'r blychau o'r ddeintyddfa i'r ardal ddihalogi.

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar anesthetig untro mewn pecynnau priodol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn'. Dywedodd pob un o'r cleifion a fynegodd eu barn fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

### **Maeth**

Er nad oedd bwyd yn cael ei ddarparu yn y clinig, roedd arwyddion yn gofyn i'r cleifion a'u rhieni neu ofalwyr beidio â bwyta nac yfed yn y clinig. Roedd hyn yn sicrhau na fyddai'r cleifion, yn enwedig plant, yn gweld pobl eraill yn bwyta gan eu bod wedi gorfod ymptydio cyn eu llawdriniaethau.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd polisi priodol ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, trin, defnyddio, dosbarthu, rhoi, gwaredu a chadw meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd dwy set o gyfarpar adfywio brys ar gael, un yn ystafell adfer y prif glinig ac un arall yn y clinig deintyddol. Roedd cofnodion clir o feddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cynnal yn nodiadau'r cleifion. Rhoddir gwybod am bryderon am adweithiau andwyol i feddyginiaethau drwy'r cynllun Cerdyn Melyn a byddant yn cael eu cofnodi yn y cofnodlyfr damweiniau a digwyddiadau.

Roedd systemau ar waith i sicrhau diogelwch cyffuriau a phadiau presgripsiwn. Roedd arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol. Roedd contract ar waith ar gyfer cael gwared ar gyffuriau a reolir, ac roedd y cofnodion yn cael eu cynnal yn effeithiol.



Roedd oergell feddyginiaeth ddynodedig ar gael, gyda gwiriadau yn cael eu cynnal yn ddyddiol o'r tymheredd ac oergell wrth gefn.

Roedd y nyrsys yn cynnal cofnodion o'r meddyginiaethau presennol a'r dyddiadau dirwyn i ben. Fodd bynnag, roedd problemau o ran meddyginiaethau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio oherwydd anawsterau o ran y cyflenwad. Arweiniodd prinder cenedlaethol at anawsterau o ran caffael rhai meddyginiaeth, felly roedd dyddiad defnyddio ychydig o'r stoc wedi mynd heibio. Trafodwyd hyn â'r anesthetidd yn yr ysbyty yn ogystal â'r rheswm dros gadw'r feddyginiaeth yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio pe bai argyfwng prin.

Roedd y ddogfennaeth ar gyfer y meddyginiaethau a roddwyd yn gyson ac yn glir, ac yn cynnwys llofnodion, dyddiadau, enwau'r cleifion a'u rhifau adnabod. Roedd alergeddau wedi'u dogfennau ar ffurflenni safonol ac roedd y cleifion ag alergeddau yn gwisgo bandiau arddwrn coch. Roedd dogfennaeth glir er mwyn nodi'r broses rhoi analgesia, a oedd yn cael ei throsglwyddo i'r nyrsys adfer.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio mewn cypyrddau wedi'u cloi yn yr ardal adfer a'r theatr. Roedd anesthesia lleol yn cael ei storio mewn cwpwrdd gyda meddyginiaethau mewnwythiennol eraill. Cafodd y clinig ei gynghori y dylid storio hydoddiannau anesthetig lleol ar wahân i'r hydoddiannau trwytho mewnwythiennol, er mwyn lleihau'r risg o roi cyffuriau o'r fath yn fewnwythiennol ar gamgymeriad, a bod angen eu symud.

Byddai'r clinig yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau'n ymwneud â silindrau ocsigen i'r awdurdodau perthnasol, gan gynnwys AGIC, Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a'r cwmni cyflenwi. Byddai risgiau a chamau gweithredu mewn perthynas â silindrau ocsigen yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar reoli meddyginiaethau.

**Rhaid i'r clinig wneud y canlynol:**

- Rhoi system fwy cadarn ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio eu gwaredu mewn modd amserol, yn unol â'r polisi
- Asesu risg y defnydd o feddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio i nodi eu heffeithiolrwydd

- Sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu gwaredu'n briodol unwaith y bydd meddyginiaethau eraill yn cyrraedd
- Sicrhau y caiff anesthesia lleol ei storio ar wahân i hydoddiannau mewnwythiennol.

Trafodwyd y trefniadau a oedd ar waith i ddarparu gofal brys yn y clinig. Roedd troli adfywio gyda Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ac ocsigen cludadwy ar gael yn yr ardal adfer. Defnyddiwyd system blwch brys i reoli argyfyngau a oedd yn cynnwys meddyginiaethau a chanllawiau. Nodwyd gennym nad oedd y dantrolîn yn gyfredol, ond roedd y clinig yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i feddyginiaeth amgen a ddefnyddir i drin cymhlethdodau prin yn ymwneud ag anesthetig. Nid oedd unrhyw intralipid yn cael ei defnyddio i drin tocsigedd yn sgil anesthetig lleol ychwaith. Roedd y polisi rheoli argyfyngau yn berthnasol ar gyfer atgyfeiriadau i'r ysbyty drwy'r gwasanaethau brys. Ar yr edrychiad cyntaf, nid oedd unrhyw fagiâu hunanchwyddo ar y peiriant anesthetig. Fodd bynnag, roedd detholiad priodol o feintiau ar gael ar y troli adfywio a oedd yn cael ei gadw yn yr ardal adfer. Unionwyd hyn ar unwaith ac ymdrinnir â'r mater yn Atodiad A.

Gwnaethom nodi bod polisiau a threfniadau ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol ac achosion o adfywio, yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol, a oedd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar adfywio cardiopwlmonaidd, adfywio brys ac anaffylacsis.

Pan ofynnwyd i'r staff am y canllawiau a'r cyfarpar llwybr anadlu anodd, nid oeddent i'w gweld yn gyfarwydd â chanllawiau llwybr anadlu anodd anrhagweladwy y Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd (DAS), a dywedwyd mai'r anesthetydd fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses ac y byddant yn galw 999 mewn argyfwng. Roedd angen i'r staff fod yn gyfarwydd ag algorithmau llwybr anadlu anodd y Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd ar gyfer oedolion a phediatreg 2015. Yn ystod trafodaethau ag uwch aelodau o staff anesthetig i gadarnhau lleoliad yr algorithm a'r cyfarpar llwybr anadlu anodd, nodwyd nad oedd gan y clinig gopi wedi'i argraffu o'r algorithm. Aeth staff ati i argraffu copi o algorithm DAS yn ystod yr arolygiad. Ymdriniwyd â hyn yn Atodiad A.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar yr algorithmau llwybr anadlu anodd a'u bod yn gyfarwydd â nhw, a sicrhau y caiff copïâu eu hargraffu i'w defnyddio yn y theatr.**

#### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y clinig yn diogelu oedolion a phlant. Roedd polisiau diogelu cynhwysfawr ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cael

eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol a siart lif diogelu. Gwelsom dystiolaeth bod y siartiau llif diogelu yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd staff amrywiol ym mhob rhan o'r clinig. Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu. Roedd strwythur rheoli'r clinig yn cynnwys arweinydd diogelu dynodedig.

Wrth edrych ar y cofnodion hyfforddiant, gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel a bod arwyddion priodol wedi'u gosod uwchben pob deintyddfa.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn ymwneud â defnyddio cyfarpar pelydr-X. Gwelsom fod rhestr briodol o gyfarpar, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol yn cael eu harddangos. Roedd y ddogfennaeth a welsom yn nodi bod prosesau cynnal a chadw a phroffion angenrheidiol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar, a bod asesiad risg ymbelydredd wedi cael ei gynnal.

Trafodwyd y wybodaeth ynghylch cyfleu manteision a risgiau cysylltiadau i'r unigolyn â'r staff. Dylai'r clinig roi taflen wybodaeth i'r cleifion a'i chynnwys yn y pecynnau croeso i gleifion newydd neu arddangos poster yn eu cynghori o'r manteision a'r risgiau.

Roedd Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr a oedd ar waith yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant digonol a'u bod yn gymwys i ymgymryd â'u maes ymarfer.

Er nad oedd y clinig wedi defnyddio adnodd gwella ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer ymbelydredd Ïoneiddio, roedd wedi defnyddio adnoddau darparwyr eraill fel enghraifft o arfer da wrth ddefnyddio ymbelydredd Ïoneiddio.

Gwelwyd dystiolaeth fod gwiriadau'n cael eu cynnal ar gyfarpar. Yr anesthetydd oedd yn gyfrifol am osod y peiriant anesthetig a'i wirio cyn ei ddefnyddio. Gwelwyd bod cofnodlyfr y peiriant anesthetig yn ogystal â'r cofnodlyfr diffygion a phroblemau yn gyfredol. Byddai unrhyw faterion yn cael eu trafod ar ddechrau a diwedd y dydd.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd trefniadau diogel ac effeithiol ar waith yn y clinig i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd tystiolaeth bod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol yn cael eu dilyn, lle y bo'n briodol, wrth ddarparu triniaeth.

Roedd archwiliadau'n cael eu cynnal i fonitro gofal cleifion; roedd hyn yn cynnwys archwilio'r hylif anesthetig o gymharu â'r chwistrell cryotherapi i osod canwla. Arweiniodd hyn at ddefnyddio'r chwistrell cryotherapi. At hynny, roedd archwiliad o anghenion ychwanegol yn cael ei gwblhau'n rheolaidd.

Byddai'r cleifion ag anghenion ychwanegol yn cael eu nodi ar restr y theatr gan gydgysylltydd y nyrs bediatrig yn dilyn yr asesiad cyn llawdriniaeth. Roedd y nyrs bediatrig yn asesu'r plant cyn llawdriniaeth ac yn trafod hyn â'r rhiant neu'r gwarcheidwad er mwyn sicrhau ei bod yn deall ymddygiad a dewisiadau'r plentyn.

Roedd gofal wedi cael ei gyfyngu yn unol â'r contract a ariennir gan y GIG, roedd dwy restr anesthetig cyffredinol bediatrig yr wythnos gyda naw plentyn wedi'u cynnwys ar bob rhestr. Dywedwyd wrthym fod yr amser aros ar gyfer gofal nad yw'n frys oddeutu blwyddyn ar hyn o bryd.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael digon o amser i roi gofal i'r cleifion yn ddiogel a'u bod yn rhoi gofal effeithiol. Roedd y staff yn falch iawn o'r gwaith roeddent wedi'i wneud a'r gwasanaeth roeddent wedi'i ddarparu i'w cleifion.

### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd y clinig wedi cael ei ailddylunio a'i adnewyddu yn ystod COVID-19. Ystyriwyd cynllun y clinig a llif y cleifion gan roi llwybr unffordd ar waith ac ychwanegu desg dderbynfa ar wahân, ystafell aros ac ystafell adfer ychwanegol. Roedd ystafelloedd ymgynghori ar gael i gynnal ymgynghoriadau preifat ar y llawr gwaelod a oedd yn sicrhau y gellir cynnal trafodaethau cyfrinachol mewn preifatrwydd. Roedd toiledau priodol i'r cleifion a'r staff yn ogystal â chyfleusterau newid i'r staff ar bob llawr. Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig ar bob llawr i'w defnyddio gan y theatr ac Eveswell Suite yn y drefn honno. Roedd peiriant delweddu tomograffi gyfrifiadurol pelydr côn (CBCT) yn Eveswell Suite, sef sganiwr tri dimensiwn ar gyfer cynlluniau triniaeth yn fwy manwl. Roedd y peiriant hwn wedi'i leoli mewn ystafell briodol, ochr yn ochr â sganiwr argraffiadau digidol. Roedd y tîm rheoli wedi'i leoli ar y llawr uchaf mewn ystafelloedd golau, mawr, wrth ymyl y chyfleusterau staff a oedd hefyd wedi'u dylunio'n effeithiol.

Roedd y clinig hefyd yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr ieuchyd proffesiynol eraill hefyd, gan gynnwys osteopath a homeopath, fel y nodir ar wefan y clinig.

Gosodwyd systemau awyru ychwanegol yn theatr y gwasanaethau ysbyty o ganlyniad i COVID-19. Roedd y cleifion yn cael eu tywys i ystafell dderbynfa lle roedd y ddogfennaeth berthnasol yn cael ei chwblhau a lle roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei ddiweddarau. Roedd prif ystafell aros a oedd yn arwain at ystafell i berthnasau a'r theatr. Yna, byddai teulu neu ofalwr y claf yn dychwelyd i'r ystafell aros yn ystod y llawdriniaeth. Ar ôl y llawdriniaeth, byddai'r claf yn mynd i'r ystafell adfer yn ystod y cyfnod adfer cychwynnol ac yna i ystafell ar wahân yn ystod y cyfnod adfer eilaidd a fyddai'n cadw'r cleifion a oedd wedi cael llawdriniaeth ar wahân i'r rhai a oedd yn aros am lawdriniaeth.

Roedd deintyddfa ac ystafell ymgynghori a chynllunio triniaeth wedi cael ei hychwanegu at Eveswell Suite.

Dywedwyd wrthym am yr archwiliadau clinigol a oedd wedi cael eu cynnal yn y clinig. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau ar brosesau atal a rheoli heintiau, radiograffeg a'r driniaeth y tu allan i oriau yr oedd ei hangen. Roedd prosesau adolygu cymheiriaid yn cael eu cynnal gan y staff mewnol

### **Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu**

Roedd system addas ar waith i sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser yn unol â'r rheoliadau. Roedd y clinig yn rheoli ac yn diogelu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.

### **Rheoli cofnodion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol 10 claf, ac roeddem o'r farn fod y cofnodion cleifion yn glir ac yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan. Roedd polisi cydsynio priodol ar waith yn ogystal â phrosesau i sicrhau bod hawliau cleifion nad oedd ganddynt alluedd yn cael eu cynnal. Gwnaethom nodi fod hanes meddygol y cleifion yn cael ei gwblhau a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad.

Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dynodyddion cleifion addas a chofnod o'r hanes meddygol cychwynnol a'r hanes meddygol diweddaraf wedi'i lofnodi. Roedd cyngor ar iechyd y geg, deiet a rhoi'r gorau i smygu wedi'i gofnodi lle y bo'n briodol. Gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion bod siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau o feinweoedd meddal a phrofion sgrinio am ganser y geg wedi'u cynnal. Gwnaethom nodi materion yr oedd angen eu datrys. Er bod y gwiriadau hyn wedi cael eu cwblhau o bosibl, nid oeddent wedi cael eu cofnodi ar nodiadau'r cleifion.

### **Rhaid i'r clinig sicrhau'r canlynol:**

- Bod cymeriant alcohol yn cael ei gynnwys yn nodiadau clinigol y claf yr un ffordd â chaiff lefelau smygu eu cofnodi
- Bod yr arferion presennol gwirioneddol ar gyfer hylendid y geg a deiet yn cael eu cofnodi'n gyson a'u trafod
- Ei fod yn rhoi mwy o fanylion am yr asesiad periodontol a chyfarwyddiadau clir wrth atgyfeirio cleifion at yr hylenydd deintyddol yn unol â chanllawiau S3 2017 Cymdeithas Periodontoleg Prydain.
- Bod y wybodaeth am belydrau-X yn nodi y trafodwyd y risgiau a'r manteision â'r claf
- Ei fod yn llunio adroddiad mwy cynhwysfawr yn gyson ar y broses pelydr-X yn nodiadau'r claf, gan gynnwys manylion am lefelau'r esgyrn a phatholeg
- Bod dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Edrychwyd ar hapsampl o gofnodion ar gyfer pump claf yn y clinig. Roedd cofnodion pob claf yn cael eu cynnal yn electronig, a gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y cofnodion hyn yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn glir ac yn drefnus iawn. Roedd y cofnodion anesthetig wedi cael eu cwblhau a'u huwchlwytho i'r system gyfrifiadurol mewn modd amserol. Dengys y cofnodion bod taflenni gwybodaeth wedi cael eu rhoi i'r cleifion cyn iddynt gael anesthesia cyffredinol ac ar gyfer eu darllen gartref ar ôl y driniaeth.

Roedd nodiadau'n cael eu trefnu drwy ddefnyddio ffurflenni electronig, a oedd yn sicrhau eu bod yn hawdd eu darllen a'u deall. Roedd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth am yr holl ofal a thriniaethau a roddwyd yn ogystal â chanfyddiadau clinigol perthnasol. Roedd cydsyniad dilys yn cael ei gasglu a'i ddogfennu, gan gynnwys asesiadau o alluedd meddyliol. Roedd y staff yn cadarnhau'r cydsyniad â rhiant neu warcheidwad y claf wrth iddynt gyrraedd y clinig a chyn y driniaeth.

Roedd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth am yr unigolyn a luniodd y cofnod, dyddiadau, y penderfyniadau a wnaed, y camau gweithredu y cytunwyd arnynt a phwy wnaeth y penderfyniadau hyn ac y cytunwyd arnynt. Roedd newidiadau i'r cynlluniau triniaeth yn cael eu dogfennu a'u llofnodi gan y rhiant neu'r gwarcheidwad.

Dywedodd pob un o'r cleifion yn yr holiadur bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

### **Effeithlon**

Roedd y clinig yn cynnig triniaeth breifat i oedolion a phlant. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig yn y clinig, fel gwasanaethau orthodonteg preifat, biopsïau o lawdriniaethau y geg ac anesthesia cyffredinol. Roedd un hylenydd deintyddol yn y clinig ac roedd deintyddion yn atgyfeirio'r cleifion at yr hylenydd i gael triniaethau'n ymwneud â hylendid. Roedd tystiolaeth glir bod atgyfeiriadau ac apwyntiadau dilynol priodol wedi cael eu dogfennu yn nodiadau'r cleifion, a oedd yn sicrhau bod prosesau atgyfeirio cadarn ac effeithiol ar waith.

Roedd slotiau brys yn nyddiaduron y ddeintyddfa ar gyfer y cleifion yr oedd angen gofal deintyddol brys arnynt, ac roedd hyn yn helpu i atal y cleifion rhag defnyddio gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau.

Roedd system ar waith i gynnig apwyntiadau a oedd ar gael oherwydd achosion o ganslo apwyntiadau i gleifion eraill, a oedd yn sicrhau defnydd effeithlon o'r slotiau a oedd ar gael.

Yn ystod trafodaethau â'r uwch aelodau o staff yn y theatr, gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cwblhau hyfforddiant gloywi ar-lein ar adfywio ac anesthesia bediatrig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dengys trafodaethau ag aelodau eraill o staff bod y rôl adfer yn cynnwys gweithredu ar ffurflenni gwybodaeth am iechyd yn ogystal â chyn-asesiadau o gleifion pediatrig.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y clinig wedi'u strwythuro'n dda a bod strwythur sefydliadol clir a oedd yn cynnwys clinigau eraill ledled y DU. Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i leoli yn y clinig ac roedd yr unigolyn cyfrifol yn bresennol yn y clinig yn wythnosol. Roedd y ddau ar gael i gefnogi'r staff ac i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom nodi bod prosesau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn casglu adborth y staff a gweithredu ar unrhyw faterion a godir. Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau blynyddol o berfformiad gwaith y staff wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom ddarllen y Datganiad o Ddiben, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau. Roedd copïau ar gael ar gais ac roedd copïau papur ar gael yn yr ystafell i berthnasau ar y llawr gwaelod.

Roedd canllaw i gleifion (defnyddwyr) ar gael ar ffurf taflen nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau. Yn seiliedig ar ein sgwrs â'r rheolwr cofrestredig, roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio ag amodau ei gofrestrriad ag AGIC.

**Rhaid i'r clinig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.**

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith a oedd yn drefnus ac yn hawdd eu deall.

Caiff unrhyw hysbysiadau diogelwch a geir dros e-bost gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd neu Lywodraeth Cymru eu hanfon at yr aelodau perthnasol o staff yn ogystal â'u harddangos ar hysbysfyrddau'r staff yn ôl yr angen. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r staff drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy sgrymiau dyddiol, cyfarfodydd staff rheolaidd bob deufis, ar hysbysfyrddau a memos.

Roedd y systemau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch y staff pe bai tân yn effeithiol ac wedi'u dogfennu'n dda.



### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig gyfredol ar gael yn y clinig, a oedd i'w gweld yn y clinig. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys gwybodaeth am bwy y gallai'r cleifion gysylltu â nhw am gyngor, gan gynnwys manylion AGIC, yn ogystal â'r terfynau amser ar gyfer ymateb i gwynion.

Dywedodd aelodau o'r uwch-dîm rheoli y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r ffordd y rhoddir gwybod am risgiau a digwyddiadau, gan gynnwys i AGIC o dan reoliadau 30 a 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd system gynhwysfawr ar waith i sicrhau bod y lefelau staffio, cymysgedd sgiliau a'r hyfforddiant yn cael eu rheoli'n dda. Roedd y staff yn cael eu cynnwys ar y rota yn seiliedig ar restr y theatr a nifer y cleifion i sicrhau bod nifer briodol o staff ar gael. Roedd y cymysgedd sgiliau yn cael eu haddasu yn seiliedig ar gymhlethdod y cleifion a'u hasesiadau cyn triniaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn eu bod yn cael digon o amser i roi'r gofal angenrheidiol.

Hefyd, roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff a rheoli rheolaidd i drafod agweddau gweithredol amrywiol.

Gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau cyn cyflogi oedd yn cael eu cynnal ar staff, gan gynnwys gwiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS), geirdaon a chofrestriadau proffesiynol. Roedd contractau a disgrifiadau swydd cyfredol, ac roedd adolygiadau a gwiriadau yn cael eu cynnal ar y wybodaeth am gyflogaeth y staff.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd hyfforddiant a chyfleoedd datblygu parhaus ar gyfer y staff, yn ogystal â dull strwythuredig ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Rhoddwyd tystiolaeth i ni o asesiadau hyfforddiant a chymhwysedd wedi'u cwblhau.

Roedd y cleifion yn gallu cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd galwedigaethol drwy'r bwrdd iechyd lleol.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ar yr edrychiad cyntaf, nid oedd unrhyw fagiâu hunanchwyddo ar y peiriant anesthetig.	Mae angen sicrhau bod ffordd amgen o awyru ar gael ar unwaith, cyn rhoi'r anesthesia. Er enghraifft, bag hunanchwyddo a silindr ocsigen gyda chysylltiadau addas, fel yr argymhellir gan <a href="#">Gymdeithas Anesthetyddion Prydain Fawr ac Iwerddon (AAGBI)</a> yn eu canllawiau, 'Checking Anaesthetic Equipment 3 (2004)'.	Rhoddwyd gwybod i'r clinig am yr angen hwn ac unionwyd y mater gan fod detholiad priodol o feintiau ar gael ar y troli adfywio a oedd yn cael ei gadw yn yr ardal adfer.	Unionwyd hyn ar unwaith.
Pan ofynnwyd i'r staff am y canllawiau a'r cyfarpar llwybr anadlu anodd, nid oeddent i'w gweld yn gyfarwydd â chanllawiau llwybr anadlu	Roedd angen i'r staff fod yn gyfarwydd ag algorithmau llwybr anadlu anodd y Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd ar gyfer oedolion a phediatreg 2015.	Yn ystod trafodaethau ag uwch aelodau o staff anesthetig i gadarnhau lleoliad yr algorithm a'r cyfarpar	Aeth staff ati i argraffu copi o algorithm DAS yn ystod yr arolygiad.

<p>anodd anrhagweladwy y Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd (DAS), a dywedwyd mai'r anesthetydd fyddai'n gyfrifol am reoli'r broses ac y byddant yn galw 999 mewn argyfwng.</p>		<p>llwybr anadlu anodd, nodwyd nad oedd gan y clinig gopi wedi'i argraffu o'r algorithm.</p>	
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	----------------------------------------------------------------------------------------------	--

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Clinig Kensington Court

**Dyddiad yr arolygiad:** 6 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

Dyddiad:

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Kensington Court

Dyddiad yr arolygiad: 6 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gallai'r cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant yn yr ystafell i berthnasau o fewn y prif glinig. Prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn ardal aros Eveswell Suite, sef y ddeintyddfa breifat.	Rhaid i'r clinig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn Eveswell Suite am y ffordd y gall cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Diogelu a gwella iechyd	Mae'r clinig bellach yn arddangos rhagor o wybodaeth addysgol yn Eveswell Suite	Heather Larcombe-Watkins	Wedi'i gwblhau

2.	Er bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn y clinig am y staff a oedd yn gweithio yno a bod rhestr o'r deintyddion a'r hylenwyr ar y wal ar y ffordd i Eveswell Suite, nid oeddent yn cynnwys eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Rhaid i'r clinig sicrhau bod rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos ochr yn ochr ag enwau'r deintyddion a'r hylenwyr yn y lleoliad.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 18 (2) (a)	Mae'r clinig wedi prynu peiriant argraffu priodol i'n galluogi i argraffu arwyddion newydd a fydd yn cynnwys yr holl rifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'u diweddarau'n unol â hynny	Heather Larcombe-Watkins	Wedi'i gwblhau
3.	Nid oedd pryderon anffurfiol na phryderon a wnaed ar lafar yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd.	Rhaid i'r clinig sicrhau bod cwynion anffurfiol a chwynion a wnaed ar lafar yn cael eu cofnodi er mwyn nodi unrhyw themâu.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21	Mae'r clinig wedi cyflwyno system gadarn ar gyfer cofnodi'r holl gwynion	Heather Larcombe-Watkins	Wedi'i gwblhau
4.	Roedd problemau o ran meddyginiaethau yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi	Rhaid i'r clinig wneud y canlynol:	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13 (4)	Mae system gadarn ar waith yn y clinig i sicrhau y caiff meddyginiaethau y	Dr Phil Majoe	Wedi'i gwblhau



<p>mynd heibio oherwydd anawsterau o ran y cyflenwad. Arweiniodd prinder cenedlaethol at anawsterau o ran caffael rhai meddyginiaeth, felly roedd dyddiad defnyddio ychydig o'r stoc wedi mynd heibio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi system fwy cadarn ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio eu gwaredu mewn modd amserol, yn unol â'r polisi</li> <li>• Asesu risg y defnydd o feddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio i nodi eu heffeithiolrwydd</li> <li>• Sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu gwaredu'n briodol unwaith y bydd meddyginiaethau eraill yn cyrraedd</li> </ul>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 (1) (m) a 15 (5)</p>	<p>mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio eu gwaredu. Yn yr achos hwn, nid yw dyddiad y Dantrolene Sodium yn gyfredol, ond mae'n un o restr o gyffuriau nad ydynt ar gael ers BREXIT.</p> <p>Mae protocol rheoli risg wedi'i lunio ar gyfer sicrhau bod cyffuriau, er nad ydynt yn gyfredol, ar gael pe bai achos prin iawn o Hyperthermia Malaen</p> <p>Mae system gadarn ar gyfer gwaredu cyffuriau nad ydynt yn gyfredol yn rhan o brotocol y clinig ac yn cael ei hymarfer</p> <p>Caiff pob Lidocaine a gaiff ei defnyddio gan</p>		
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

	<p>Roedd anesthesia lleol yn cael ei storio mewn cwpwrdd gyda meddyginiaethau mewnwythiennol eraill. Rhoddwyd gwybod i'r clinig am y canllawiau i storio anesthetig lleol ar wahân i hydoddiannau mewnwythiennol a bod angen ei symud.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i anesthesia lleol gael ei storio ar wahân i hydoddiannau mewnwythiennol.</li> </ul>		<p>anesthetyddion ei storio mewn cwpwrdd ar wahân i hydoddiannau mewnwythiennol</p>		
5.	<p>Pan ofynnwyd i'r staff am y canllawiau a'r cyfarpar llwybr anadlu anodd, nid oeddent i'w gweld yn gyfarwydd â chanllawiau llwybr anadlu anodd anrhagweladwy y Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd (DAS). Roedd angen i'r staff fod yn gyfarwydd ag algorithmau llwybr</p>	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar yr algorithmau llwybr anadlu anodd a'u bod yn gyfarwydd â nhw, a sicrhau y caiff copïau eu hargraffu i'w defnyddio yn y theatr.</p>	<p>Canllawiau'r Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd</p> <p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20 (2) (a)</p>	<p>Mae Canllawiau'r Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd wedi cael eu hychwanegu at y protocolau a chaiff yr Algorithm ei arddangos yn y Theatr a'r Ystafell adfer</p> <p>Mae sesiynau dynodedig bellach wedi cael eu trefnu gyda phob aelod o'r</p>	<p>Heather Larcombe-Watkins</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

	anadlu anodd y Gymdeithas Llwybr Anadlu Anodd ar gyfer oedolion a phediatreg 2015.			staff ar gyfer hyfforddiant		
6.	Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol 10 claf, ac roeddem o'r farn fod y cofnodion cleifion yn glir ac yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan. Gwnaethom nodi materion yr oedd angen eu datrys. Er bod y gwiriadau hyn wedi cael eu cwblhau o bosibl, nid oeddent wedi cael eu cofnodi ar nodiadau'r cleifion.	<p>Rhaid i'r clinig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod cymeriant alcohol yn cael ei gynnwys yn nodiadau clinigol y claf yr un ffordd â chaiff lefelau smygu eu cofnodi</li> <li>Bod yr arferion presennol gwirioneddol ar gyfer hylendid y geg a deiet yn cael eu cofnodi'n gyson a'u trafod</li> <li>Ei fod yn rhoi mwy o fanylion am yr asesiad periodontol a chyfarwyddiadau clir wrth atgyfeirio cleifion at yr</li> </ul>	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 20	<p>Mae'r feddalwedd data bellach wedi cael ei diweddarau i gynnwys cymeriant alcohol ochr yn ochr â gwybodaeth am smygu</p> <p>Mae proses newydd a thempledi wedi cael eu hychwanegu at y feddalwedd Data</p> <p>Atgoffwyd y clinigwyr o bwysigrwydd dilyn y Canllawiau priodol</p>	Heather Larcombe-Watkins	Wedi'i gwblhau

		<p>hyleneidd deintyddol yn unol â chanllawiau S3 2017 Cymdeithas Periodontoleg Prydain.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bod y wybodaeth am belydrau-X yn nodi y trafodwyd y risgiau a'r manteision â'r claf</li> <li>Ei fod yn llunio adroddiad mwy cynhwysfawr yn gyson ar y broses pelydr-X yn nodiadau'r claf, gan gynnwys manylion am lefelau'r esgyrn a phatholeg</li> <li>Bod dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.</li> </ul>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017, Rheoliad 11 (2) ac Atodlen 2 (1) (i)</p>	<p>Mae proses newydd a thempledi wedi cael eu hychwanegu at y feddalwedd Data</p> <p>Mae proses newydd a thempledi wedi cael eu hychwanegu at y feddalwedd Data</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwybod am bwysigrwydd anghenion ieithyddol unigol</p>		
7.	Roedd canllaw i gleifion (defnyddwyr)	Rhaid i'r clinig sicrhau bod y canllaw i gleifion yn	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol	Caiff rheoliadau eu gwirio a bydd y	Heather	3 mis er mwyn rhoi

ar gael ar ffurf taflen nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.	cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.	(Cymru) 2011, Rheoliadau 7 ac 8	canllaw i ddefnyddwyr n cael ei ddiweddarau yn unol â hynny	Larcombe-Watkins	amser i ailargraffu
-------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------	---------------------------------	-------------------------------------------------------------	------------------	---------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Heather Larcombe-Watkins**

**Teitl swydd: Rheolwr y Clinig**

**Dyddiad: 14 Mawrth 2025**